| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **Pwnc:** | ARCHWILIAD MEWNOL O GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL – DIWEDDARIAD CYNNYDD |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Elliw Llŷr<br>Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth Tai |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi diweddariad am weithredu ers cyfarfod y 25ain o Fehefin | |

## 1. Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad a sicrwydd bod materion archwilio mewnol yn cael eu datrys yn briodol ac mewn modd amserol gyda'r materion canlynol yn cael eu gweithredu:

**Risg:**
**Mae diffyg craffu a throsolwg gan reolwyr yn y maes hwn yn creu risg y bydd y Cyngor ar ei golled yn ariannol oherwydd y posibilrwydd na fydd camgymeriadau neu weithgarwch twyllodrus yn cael eu canfod, yn ogystal â risgiau parhad busnes yn gysylltiedig â rôl yr Uwch Swyddog Technegol mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Os nad oes cofnodion a threfniadau gweinyddu cadarn ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gallai achosi camgymeriadau wrth adrodd ar faterion ariannol a pherfformiad, cyllidebau anghywir a bod taliadau i gontractwyr yn cael eu dyblygu neu fod y taliadau'n rhy uchel neu isel. Mae gwendidau o'r fath hefyd yn creu heriau o ran archwilio a chydymffurfio, a gallant arwain at ddadansoddiadau gwael a phenderfyniadau aneffeithiol.**

Rydym bellach wedi llenwi rôl Cymorth Gweinyddol ar gyfer proses DFG (2 ddiwrnod yr wythnos) i weithio gyda'n Swyddog Technegol ac fel rhan o ddyletswyddau bydd y Cymhorthydd Gweinyddol yn:-

1. Mewnflwch y Tim – e-byst wedi'u gwirio yn rheolaidd
2. Cynlluniau gofal yn cael eu hanfon i Gofal a Thrwsio
3. Gwirio y Gofrestrfa Tir i weld a yw enw'r perchennog yn cyfateb.
4. Diweddaru'r daenlen Excel gyda manylion y cleient o'r cynllun gofal
5. Gofal a Thrwsio yn cysylltu â chleientiaid, paratoi manyleb ar gyfer gwaith, gweinyddu'r broses dendro a phenodi contractwr.
6. Gofal a Thrwsio yn anfon manylion y contractwr atom, yna mae PRD (Archeb) yn cael ei godi a'i gymeradwyo yn briodol ar Civica.
7. Darparu cymorth gweinyddol i anfon gwybodaeth priodol at Gwasanaeth Cyfreithiol
8. Paratoi'r adroddiad monitro ar ddiwedd pob mis
9. Paratoi agenda a gwaith papur a chymryd cofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Panel Addasiadau Cymhleth.
10. Gwirio bod y gronfa ddata yn gyfredol a bod PIs yn gyfredol

Mae ein Cronfa Data yn cofnodi'r gwybodaeth canlynol:-

1. Gwybodaeth bersonol
2. Nifer yr Achosion Agored
3. Nifer y Cynllun Gofal Derbyniwyd / Wedi'i Gymeradwyo / Wedi'i Gwblhau
4. Math o Addasiad
5. Nifer y Diwrnodau Agored
6. Cyfanswm Cost y Gytundeb Gwaith
7. Contractwr
8. Ffi asiant
9. Deiliadaeth
10. Cyfeirnod y Gofrestrfa Tir
11. Dyddiad cymeradwyo gan y Gwasanaethau Tai

**Goruchwyliaeth Rheolaethol**

Swyddog a Rheolwr Llinell yn cwrdd yn fisol i drafod a monitro achosion
Gwybodaeth ariannol gan Cyllid a dderbynnir yn fisol yn cael ei fonitro
Adroddiadau Rheolaeth Chwarterol ar gyfer cyfarfodydd Strategaeth Tai wedi'u cytuno ar gyfer y flwyddyn

| |
|---|
| **Risg**<br>**Nid yw trefniadau presennol ar gyfer datrys, adennill a rhoi cyfrif am ddaliadau a ddyblygwyd a gordaliadau yn gysylltiedig â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ddigonol ac mae risg o fethu â chydymffurfio â rheolau gweithdrefnau ariannol eto yn y dyfodol.**<br>**Mae risg na fydd cyfrifon ariannol yn gywir, yn ogystal â phroblemau wrth adrodd ar berfformiad, colledion ariannol a niweidio enw da'r Cyngor.** |

Nododd adolygiad archwilio ordaliad contractwr gwerth £775. Mae'r contractwr wedi tynnu'r swm oedd wedi'i ordalu yn erbyn anfoneb ddiweddarach, ac mae'r addasiad wedi'i wirio gan swyddogion. O ganlyniad, nid oes unrhyw effaith ariannol eithriadol i'r Cyngor. Mae'r mater wedi'i gyfeirio yn ôl at Archwilio Mewnol am eu barn ar ddigonolrwydd y dull adfer a chau'r canfyddiad.

| |
|---|
| **Risg:**<br>**Mae diffyg gweithdrefnau cadarn ar gyfer cofrestru pridiannau tir lleol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl cymwys yn brydlon a gorfodaeth effeithiol yn creu risg ariannol i'r Cyngor.** |

Gwiriadau mewnol wedi eu gwneud i sicrhau bod dogfennau Siars Cyfreithiol/Cyfyngiadau Cyfreithiol yn ddigonol a bod cytundeb wedi'i lofnodi gan y cleient yn ddigonol i amddiffyn buddiannau'r Cyngor yn yr eiddo wedi'i addasu nes bod holl gostau yr addasiadau yn cael eu hadennill mewn sefyllfaoedd lle mae eiddo wedi'i addasu yn cael ei werthu yn y dyfodol.

Derbyniwyd geiriad diwygiedig gan Gyfreithiwr yn yr Adran Gyfreithiol i'w gynnwys yn y llythyr cyn-gymeradwyo sy'n nodi'n glir pe bai costau'n cynyddu oherwydd gwaith annisgwyl y byddai hyn yn cael ei ychwanegu ar y cyfyngiad gyda chaniatâd y cleient. Os na roddir caniatâd gan y cleient, gall arwain at waith sydd ddim yn cael ei gyflawni.

Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn achosion presennol sy'n aros am lythyr cyn-gymeradwyo ac achosion sy'n mynd ymlaen am gymeradwyaeth.

## 2. Argymhelliad

Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r cynnydd